

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWEITHGOR RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF

Cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Rhyddfrait y Fwrdeistref a gynhaliwyd Dydd Iau, 13 Chwefror 2020 am 3.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Gweithgor Rhyddfrait y Fwrdeistref Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd L De Vet Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd M Diamond

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

1 Ymddiheuriadau

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod.

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber, J. James ac M. Powell.

2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

4 Enwebiadau Posibl ar gyfer Rhyddfrait y Fwrdeistref

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu yr enwebiadau a dderbyniwyd ar gyfer Rhyddfrait y Fwrdeistref.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod mai dyma'r anrhydedd mwyaf y mae modd i'r Fwrdeistref Sirol ei ddarparu, a bod pob unigolyn enwebedig yn yr adroddiad yn deilwng o'r anrhydedd hwnnw.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Trafod enwebiadau a barn Aelodau'r Pwyllgor;
2. Argymhell cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i un o'r enwebeion yng nghyfarfod priodol nesaf y Cyngor Llawn;
3. Cyn cyflwyno'r argymhelliad i'r Cyngor Llawn, dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu roi gwybod am fwriad y Pwyllgor i wneud hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y Gyngorydd L De Vet
Cadeirydd.**